Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhestr Wirio Asesiad Risg Tân

2023

llyw.cymru


# Asesiad risg diogelwch tân

**Dilynwch y 5 cam allweddol isod a llenwch y rhestr wirio.**

Mae'r broses asesu risg yn cynnwys archwilio'r eiddo i nodi peryglon tân posibl, er mwyn sicrhau mesurau digonol i atal tân rhag dechrau a bod mesurau diogelu rhag tân digonol ar waith i ddiogelu pawb yn yr adeilad.

Perygl tân yw unrhyw beth a all gynnau tân, megis ffynonellau tanio neu ddeunyddiau llosgadwy. Ystyriwch:

- offer trydanol
- ysmygu
- llosgi bwriadol
- gwresogi
- coginio
- cadw tŷ
- contractwyr




Faint o bobl sydd yn yr eiddo? A oes unrhyw weithwyr ifanc, anabl neu unigol yn bresennol yn yr eiddo?

Faint o loriau a grisiau sydd yn yr eiddo?

Nifer a lleoliad yr allanfeydd? A oes angen larymau tân, arwyddion allanfeydd tân, goleuadau argyfwng a diffoddyddion tân?

Oes gennych chi gynllun clir o sut y byddwch chi'n cadw pobl yn ddiogel rhag tân? A yw eich staff yn gwybod beth i'w wneud os bydd tân? Ydych chi'n cwblhau ymarferion tân? A yw darpariaethau diogelwch tân yn cael eu cynnal?

Mae eich cynllun yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud ac erbyn pryd. Defnyddiwch y rhestr wirio i sicrhau eich bod wedi ymdrin â phob maes.

Mae angen adolygu a diweddaru eich asesiad risg tân yn rheolaidd os oes unrhyw newidiadau sylweddol.

## 1. Peryglon tân

- Ydych chi wedi dod o hyd i rywbeth a allai gynnau tân?
- Ydych chi wedi dod o hyd i unrhyw beth a allai losgi?
- Sut y gallai tân gynnau?
- Meddyliwch am wresogyddion, goleuadau, offer trydanol a gwaith poeth fel weldio.
- Ydych chi wedi ystyried ysmygu a defnyddio matsis?

## 2. Pobl mewn perygl

- Gallai tân beri perygl i bawb yn yr eiddo.
- Meddyliwch am staff nos neu bobl nad ydynt yn gyfarwydd â'r eiddo, fel ymwelwyr neu gwsmeriaid.
- Mae plant, pobl hŷn a phobl anabl yn arbennig o agored i niwed.
- Pwy allai fod mewn perygl?
- Pwy allai fod mewn perygl mwy penodol?

## 3. Gwerthuso a gweithredu

- Ydych chi wedi asesu'r risgiau?
- Oes gennych chi ddigon o lwybrau dianc?
- Ydych chi wedi cynllunio llwybrau dianc?
- Ydych chi wedi sicrhau y bydd pobl yn gallu dod o hyd i ffordd allan, hyd yn oed yn y nos?
- A oes angen system larwm tân?
- A oes angen arwyddion, fel arwyddion allanfeydd tân?
- A oes angen goleuadau argyfwng?
- A oes angen diffoddyddion tân ac, os felly, lle dylid eu lleoli?
- Ydych chi wedi cadw ffynonellau tanio i ffwrdd o ffynonellau tanwydd?
- Ydych chi wedi sicrhau bod pawb yn ddiogel rhag tân?
- Oes gennych chi gynllun diogelwch tân?
- Pwy fydd yn galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub?
- A allech chi ddiffodd tân bach a'i atal rhag lledaenu?

## 4. Cofnodi, cynllunio a hyfforddi

- Ydych chi wedi cynllunio beth fydd pawb yn ei wneud os bydd tân?
- A yw eich staff i gyd yn gyfarwydd â'r cynllun?
- A yw'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf a chwblhau ymarfer tân?
- Ydych chi wedi cynnwys staff dros dro?
- Ydych chi'n gwneud gwaith cynnal a chadw ar bopeth sy'n cael ei ddarparu neu ei angen i gadw pobl yn ddiogel rhag tân?
- Ydych chi wedi llunio eich cynllun gweithredu i leihau'r peryglon tân? Rhestr o gamau gweithredu yw'r cynllun, fel arfer gyda blaenoriaethau a chyfyngiadau amser i lunio, cynnal neu wella rheolaethau. Cofiwch, lle y bo'n briodol, y gall hynny olygu dileu neu reoli peryglon (e.e. gwella'r gwaith o wahanu deunyddiau llosgadwy o ffynonellau tanio).

## 5. Adolygu

- Adolygwch eich asesiad yn rheolaidd. Cofiwch ei ddiweddaru wrth i risgiau neu beryglon newid. Os byddwch yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r eiddo neu'r defnydd ohono, dylech adolygu eich asesiad risg.
- Ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r adeilad ers yr asesiad diwethaf?
- Ydych chi wedi cael tân neu dân fu bron â digwydd?
- Ydy lefelau stoc wedi newid yn sylweddol?
- Ydych chi wedi dechrau storio cemegion neu sylweddau peryglus?

# Rhestr wirio asesiad risg tân

| | |
|---|---|
| Person Cyfrifol (Cyflogwr neu berson sy'n rheoli eiddo) | |
| Cyfeiriad yr eiddo: | |
| Asesydd: | |
| Dyddiad yr asesiad: | |
| Defnydd o'r eiddo: | |
| Nifer y lloriau: | |
| Adeiladwaith: | |
| Uchafswm nifer y gweithwyr / ymwelwyr: | |

## Gosodiadau ac offer trydanol

A yw gosodiadau sefydlog yn cael eu harchwilio a'u profi yn gyson bob pum mlynedd? Ydynt ☐ Nac ydynt ☐

A yw offer trydanol ac offer yn cael eu harchwilio a'u profi yn gyson? Amh ☐ Ydynt ☐ Nac ydynt ☐

A yw'r defnydd o lidiau rhydd ac addasyddion trydan yn cael ei osgoi lle bo hynny'n bosibl? Amh ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐

## Ysmygu

A oes mesurau digonol ar waith i atal pobl rhag ysmygu yn yr eiddo? Oes ☐ Nac oes ☐

A oes arwyddion 'Dim ysmygu' yn cael eu darparu? Oes ☐ Nac oes ☐

A oes trefniadau addas ar waith ar gyfer y rhai sy'n dymuno ysmygu y tu allan i'r eiddo? Amh ☐ Oes ☐ Nac oes ☐

## Llosgi bwriadol

A yw'r eiddo wedi'i ddiogelu'n ddigonol i atal mynediad heb awdurdod? Ydy ☐ Nac ydy ☐

A yw deunyddiau llosgadwy, gwastraff a biniau sbwriel yn cael eu storio'n ddiogel yn glir o'r eiddo neu mewn parth-au/ystafelloedd pwrpasol? Amh ☐ Ydynt ☐ Nac ydynt ☐

## Systemau gwresogi a gwresogyddion clud-adwy

A yw systemau gwresogi sefydlog yn destun gwaith cynnal a chadw cyson? Amh ☐ Ydynt ☐ Nac ydynt ☐

A yw gwresogyddion cludadwy yn cael eu harchwilio'n gys-on ac yn cael eu defnyddio'n ddiogel? Amh ☐ Ydynt ☐ Nac ydynt ☐

## Coginio

A oes mesurau digonol ar waith i atal tanau yn sgil coginio? Amh ☐ Oes ☐ Nac oes ☐

A yw hidlwyr a dwythellau yn cael eu glanhau'n rheolaidd? Amh ☐ Ydynt ☐ Nac ydynt ☐

## Cadw tŷ

A yw safon y cadw tŷ'n ddigonol i atal deunyddiau a gwast-raff llosgadwy rhag cronni? Ydy ☐ Nac ydy ☐

A yw deunyddiau llosgadwy yn cael eu cadw ar wahân i ffynonellau tanio a gwres? Ydynt ☐ Nac ydynt ☐

A oes trefn ar waith i sicrhau bod pob contractwr sy'n ym-gymryd â gwaith yn yr eiddo yn alluog ac yn gymwys? Oes ☐ Nac oes ☐

## Sylweddau peryglus

A oes mesurau addas ar waith i fynd i'r afael â'r peryglon tân sy'n gysylltiedig â defnyddio a storio sylweddau peryg-lus? Amh ☐ Oes ☐ Nac oes ☐

## Peryglon tân sylweddol eraill

A oes unrhyw beryglon tân sylweddol eraill yn yr eiddo? Oes ☐ Nac oes ☐

Os yw'r atebion i'r cwestiynau uchod yn gadarnhaol, rhestrwch bob perygl ac unrhyw fesurau rheoli i leihau'r tebygolrwydd o dân yn y blwch isod. Os yw'r ateb i unrhyw gwestiwn yn negyddol, dylid cynnwys camau gweithredu addas yn y Cynllun Gweithredu.

## Ffyrdd o ddianc

A yw pob llwybr dianc yn cael ei gadw'n glir o rwystrau i all-uogi pobl i ddianc yn ddiogel? Ydy ☐ Nac ydy ☐

A yw'r holl allanfeydd tân yn agor yn hawdd ac ar unwaith? Ydynt ☐ Nac ydynt ☐

A yw'r pellteroedd yn rhesymol? Ydynt ☐ Nac ydynt ☐

A oes rhagofalon addas ar waith ar gyfer pob ystafell fewn-ol? Amh ☐ Oes ☐ Nac oes ☐

A yw'r grisiau'n cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag tân, gan gynnwys drysau sy'n cau eu hunain ac yn wrthsefyll tân? Amh ☐ Ydynt ☐ Nac ydynt ☐

A oes trefniadau rhesymol ar waith ar gyfer symud gweith-wyr anabl a phobl anabl eraill o'r eiddo yn ddiogel? Amh ☐ Oes ☐ Nac oes ☐

Cofnodwch fanylion cryno o'r mesurau uchod yn y blwch isod. Os yw'r ateb i unrhyw gwestiwn yn negyddol, dylid cynnwys camau gweithredu addas yn y Cynllun Gweithredu.

## Ffyrdd o roi rhybudd mewn achos o dân

A oes system larwm tân drydanol addas ar waith? Amh ☐ Oes ☐ Nac oes ☐

A oes synwyryddion mwg / gwres awtomatig ar gael, gyda nifer a chwmpas digonol? Amh ☐ Oes ☐ Nac oes ☐

Cofnodwch fanylion cryno o'r mesurau uchod yn y blwch isod. Os yw'r ateb i unrhyw gwestiwn yn negyddol, dylid cynnwys camau gweithredu addas yn y Cynllun Gweithredu.

| |
|---|
| |

## Diffoddwyr tân â llaw

A oes darpariaeth resymol o ddiffoddwyr tân? Amh ☐ Oes ☐ Nac oes ☐

## Goleuadau dianc mewn argyfwng

A oes safon resymol o oleuadau dianc brys i oleuo llwybrau dianc ac ardaloedd heb oleuadau naturiol? Amh ☐ Oes ☐ Nac oes ☐

Cofnodwch fanylion cryno o'r mesurau uchod yn y blwch isod. Os yw'r ateb i unrhyw gwestiwn yn negyddol, dylid cynnwys camau gweithredu addas yn y Cynllun Gweithredu.

| |
|---|
| |

## Arwyddion a hysbysiadau diogelwch tân

A oes safon resymol o arwyddion allanfeydd tân ac arwydd-ion diogelwch tân? Amh ☐ Oes ☐ Nac oes ☐

A yw rhybuddion tân cyffredinol, sy'n manylu ar y camau i'w cymryd os bydd tân, wedi'u darparu a'u gosod mewn lleol-iadau amlwg? Ydynt ☐ Nac ydynt ☐

Cofnodwch fanylion cryno o'r mesurau uchod yn y blwch isod. Os yw'r ateb i unrhyw gwestiwn yn negyddol, dylid cynnwys camau gweithredu addas yn y Cynllun Gweithredu.

| |
|---|
| |

## Rheoli diogelwch tân

| | | |
|---|---|---|
| A oes rhywun wedi cael ei benodi i reoli diogelwch tân? | | Oes ☐ Nac oes ☐ |
| A yw gweithdrefnau mewn achos o dân yn briodol ac wedi'u cofnodi'n briodol? | | Ydynt ☐ Nac ydynt ☐ |
| A yw pob gweithiwr yn cael cyfarwyddyd a hyfforddiant rheolaidd ar y camau i'w cymryd os bydd tân? | | Ydynt ☐ Nac ydynt ☐ |
| A yw gweithwyr sydd â chyfrifoldebau ychwanegol, fel war-deiniaid tân, yn cael hyfforddiant ychwanegol i gyflawni eu rolau? | Amh ☐ | Ydynt ☐ Nac ydynt ☐ |
| A oes gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal i sicrhau bod llwybrau dianc yn cael eu cadw'n glir a bod allanfeydd tân yn parhau i fod yn hawdd eu hagor? | | Oes ☐ Nac oes ☐ |
| A oes trefn brofi fisol a blynyddol ar waith ar gyfer y goleu-adau dianc brys? | Amh ☐ | Oes ☐ Nac oes ☐ |
| A oes profion wythnosol a chynnal a chadw ac arferion gwasanaethu rheolaidd ar waith ar gyfer y system larwm tân ac unrhyw synwyryddion awtomatig? | Amh ☐ | Oes ☐ Nac oes ☐ |
| A yw diffoddwyr tân yn destun gwaith cynnal a chadw blyn-yddol? | Amh ☐ | Ydynt ☐ Nac ydynt ☐ |
| A yw cofnodion yn cael eu cadw o waith profi a chynnal a chadw? | | Ydynt ☐ Nac ydynt ☐ |

Cofnodwch fanylion cryno o'r mesurau uchod yn y blwch isod. Os yw'r ateb i unrhyw gwestiwn yn negyddol, dylid cynnwys camau gweithredu addas yn y Cynllun Gweithredu.

| |
|---|
| |

# Cynllun gweithredu

Os oes tic gyferbyn ag ymateb negyddol yn unrhyw un o'r blychau uchod, dylid disgrifio'r diffygion isod, ynghyd â chamau gweithredu arfaethedig ar gyfer eu cywiro.

| Eitem | Diffyg | Camau gweithredu arfaethedig | Amserlen | Person cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | |
| 2 | | | | |
| 3 | | | | |
| 4 | | | | |
| 5 | | | | |
| 6 | | | | |
| 7 | | | | |
| 8 | | | | |
| 9 | | | | |
| 10 | | | | |

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47734, ISBN digidol 978-1-83504-330-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg